# Ein Cwricwlwm Ni
# Our Curriculum



# Ein gweledigaeth
# Our vision

**Gwnewch y pethau bychain.**

***Take care of the small things.***

# Datganiad o genhadaeth

# Our mission statement

## Datganiad o Genhadaeth ac Amcanion yr ysgol

Y mae arwyddair yr ysgol, sef 'Gwnewch y pethau bychain' yn seiliedig ar eiriau a dysgeidiaeth Dewi Sant, nawddsant Cymru. Y mae holl ran-ddeiliaid Ysgol Gymraeg y Cwm yn ymrwymedig i feithrin a chofleidio gwerthoedd a rhinweddau sy'n gyfrwng cyfoethogi ein bywydau beunyddiol - gwerthoedd a rhinweddau megis gonestrwydd, goddefgarwch, tegwch, hunan-barch, parch at eraill, cwrteisi, cymwynasgarwch, teyrngarwch, hunan-hyder, dyfalbarhad ac ymddiriedaeth.

Trwy gyfleu'r gwerthoedd hyn a gwneud y 'pethau bychain' hynny anelwn at ragoriaeth ymhob agwedd o fywyd a gosod seiliau cadarn y gallwn adeiladu arnynt er mwyn cyflawni ein hamcanion sef:-

- ✓ Darparu addysg cyfrwng Gymraeg o'r radd flaenaf i bob unigolyn a'u haddysgu am ddiwylliant a hanes ein gwlad tra'n parchu a dysgu am ddiwylliannau eraill.
- ✓ Creu dinasyddion dwyieithog a'r manteision sydd ymhlŷg â hynny.
- ✓ Sicrhau cyfeiriad strategol clir a chadarn sy'n parchu ac yn ymgorffori barn holl ran-ddeiliaid yr ysgol.
- ✓ Sicrhau fod pawb sydd ynghlwm â chymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn cael eu haddysgu mewn awyrgylch diogel, hapus, cynhwysol a symbylol.
- ✓ Darparu cwricwlwm cyfoethog, cyffrous, cytbwys a heriol sy'n caniatau i holl ddisgyblion lwyddo a gwireddu eu potensial ac i ddatblygu'n emosiynol, yn foesol a chymdeithasol yn ogystal ag yn addysgol.
- ✓ Rhoi gwrandawiad teg i bob disgybl a sicrhau fod eu llais a'u hawliau yn ganolog i gynlluniau a gweithredoedd yr ysgol.
- ✓ Annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd ac i gynnal safonau uchel o ymddygiad.
- ✓ Cydnabod cyfoeth y gymuned leol ac ehangach y mae'r ysgol yn rhan ohoni a manteisio ar y cyfoeth hwnnw.
- ✓ Arfogi holl ddisgyblion â'r sgiliau, y profiadau a'r hyder i wynebu sialensiau'r dyfodol a thyfu'n ddinasyddion cyflawn.

## *School Mission Statement and Objectives*

*The school's motto, which is 'Gwnewch y pethau bychain' ('Take care of the little things') is based on the words and teachings of St David, the patron saint of Wales. All stakeholders of Ysgol Gymraeg y Cwm are committed to nurturing and embracing the values and qualities which enrich our daily lives - values and qualities such as honesty, tolerance, fairness, self-esteem, respect for others, courtesy, helpfulness, self-confidence, perseverance and trust.*

*By articulating these values and doing those 'little things', we aim for excellence in every aspect of life and lay firm foundations on which we can build in order to achieve our objectives, namely:*

- ✓ *To provide Welsh-medium education of the highest standard to each individual and to teach them about the culture and history of our country while respecting and learning about other cultures.*
- ✓ *To produce bilingual citizens with all the advantages associated with that.*
- ✓ *To provide a clear and definite strategic direction which respects and incorporates the views of all the school's stakeholders.*
- ✓ *To ensure that all involved with the school community work together to make sure every pupil is taught in a safe, happy, inclusive and stimulating atmosphere.*
- ✓ *To provide a rich, exciting, balanced and challenging curriculum which allows all the pupils to succeed and fulfil their potential and to develop emotionally, morally and socially as well as educationally.*
- ✓ *To give a fair hearing to all pupils and ensure that their voice is central to the school's plans and actions.*
- ✓ *To encourage pupils to take responsibility for their own actions and to maintain high standards of behaviour.*
- ✓ *To acknowledge the richness of the local and wider community of which the school is a part and to benefit from that richness.*
- ✓ *To equip all pupils with the skills, experiences and confidence to face challenges in the future and become well-rounded citizens.*

# Cwricwlwm i bawb
# Curriculum for all



Mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio i fod yn gynhwysol a chodi dyheadau, gan apelio at bob dysgwr. Bydd yn cefnogi pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen ar eu taith unigol eu hunain yn seiliedig ar eu hanghenion o ran ADY a ffactorau eraill sy'n cyfrannu.



Our curriculum has been designed to be inclusive and raise aspirations, appealing to all learners. It will support all learners to realise the four purposes and to progress on their own individual journey based on their needs with regards to ALN and other contributing factors.

# 4 diben ein cwricwlwm
# 4 purposes

Byddwn yn annog a chefnogi pob plentyn i fod yn:

- ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd, ac
- unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas
- Gelwir rhain yn 'bedwar diben' y cwricwlwm.

We'll support and encourage every pupil to be:

- an ambitious, capable learner, ready to learn throughout their life
- an enterprising, creative contributor, ready to play a full part in life and work
- an ethical, informed citizen, ready to take part in Wales and the world, and a
- a healthy, confident individual, ready to lead a fulfilling life as a valued member of society.
- These are called the 'four purposes' of the curriculum.

# Yr hyn sy'n bwysig
# What matters

## Yr Hyn Sy'n Bwysig

Dylai'r hyn mae plant yn ei ddysgu ganolbwyntio ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw nawr a phethau fydd yn bwysig iddyn nhw pan fyddan nhw'n tyfu i fyny.

Mae pob maes dysgu a phrofiad yn cynnwys **datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** sy'n llywio dysgu plant o bob oed. Mae'r rhain yn helpu eich plentyn i feddwl am yr hyn y mae'n ei ddysgu a sut mae pynciau'n cysylltu gyda'i gilydd, gyda gwaith a chyda bywyd. Maen nhw hefyd yn helpu plant i wneud cynnydd bob blwyddyn wrth iddyn nhw feithrin eu sgiliau a dealltwriaeth.

Mae mwy o gyfleoedd i'ch plentyn ddysgu sgiliau pwysig am oes a fydd yn ei helpu i:

- werthfawrogi'r byd o'i gwmpas/chwmpas
- gofyn cwestiynau, edrych ar dystiolaeth, gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- archwilio, cyfathrebu, creu cynlluniau a dod o hyd i atebion
- adeiladu gwydnwch a rheoli ei les/lles
- gweithio gydag eraill a
- gwneud penderfyniadau am yrfa yn y dyfodol yn seiliedig ar brofiadau ystyrlon mewn dysgu, gwaith ac entrepreneuriaeth.

### Esiampl o sut mae hyn yn gweithio

Ym maes dysgu a phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg, un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yw:

***'Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.'***

Wrth i'ch plentyn ddysgu, bydd yn meddwl am hyn mewn gwahanol ffyrdd, fel hyn:

- Rwy'n gwybod bod 'na anifeiliaid mewn perygl.
- Rwy'n deall bod yr hyn rwy'n ei wneud yn effeithio ar yr amgylchedd, pobl ac anifeiliaid.
- Gallaf adnabod ffyrdd o leihau effaith newid hinsawdd ar yr amgylchedd, bodau dynol ac anifeiliaid.

## What Matters

Your child's learning should focus on things that matter to them now and when they grow up.

Each area of learning and experience contains **statements of what matters** which shape learning for children of all ages. These help your child think about what they're learning and how topics link to each other, to work and to life. They also support your child to progress each year as they build their understanding and skills.

There are more opportunities for your child to learn important skills for life that will help them to:

- appreciate the world around them
- ask questions, look at evidence, make decisions and solve problems
- explore, communicate, create plans and find solutions
- build resilience and manage their well-being
- work with others and
- make decisions about their future career based on meaningful experiences in learning, work and entrepreneurship.

### An example of how this works

In the Science and Technology area of learning and experience, one of the statements of what matters is:

***'The world around us is full of living things which depend on each other for survival.'***


As your child learns, they'll think about this in different ways, like this:

- I know that there are endangered animals.
- I understand that what I do has an impact on the environment, people and animals.
- I can identify ways to reduce the impact of climate change on the environment, humans and animals.

# Meysydd Dysgu a Phrofiad

# Areas of Learning and Experience

Yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae **chwe maes dysgu a phrofiad**. Bydd popeth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn gysylltiedig â'r meysydd hyn.




**Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:**

- hawliau dynol
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle
- dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn.

As well as literacy, numeracy and digital skills, there are **six areas of learning and experienc**e. Everything your child learns will be connected to these areas.




**The curriculum also covers:**

- human rights
- diversity and respecting differences
- experiences and skills for careers and the workplace
- learning about local, national and international contexts
- developmentally appropriate relationships and sexuality education.

# Dysgu, Cynnydd ac Asesu

# Learning, Progression and Assessment

**Dysgu mewn ffordd sy'n gweithio i'ch plentyn**

Mae'r cwricwlwm newydd yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau eich plentyn. Bydd yn symud ymlaen pan fydd:

• yn dysgu mwy
• dealltwriaeth o bethau yn dyfnhau
• ei sgiliau cyfathrebu'n tyfu a
• ei sgiliau'n wella.

Efallai y bydd adegau pan fydd yn: • symud ymlaen yn gyflym neu'n
• arafu i sicrhau dealltwriaeth o bwnc neu wrth ddarganfod rhywbeth sydd o ddiddordeb personol.

*Nid yw dysgu bob amser yn gysylltiedig ag oedran. Ni fydd yn digwydd yn yr un ffordd, nac ar yr un pryd i bawb.*

**Learning in a way that works for your child**

The new curriculum develops your child's knowledge, skills and experiences. They will move forward as:

• they learn more
• their understanding of things gets deeper
• their communication skills grow and
• their skills improve.

There may be times when they:

• move forward quickly or
• slow down to make sure they understand a topic or because they discover something that interests them.

*Learning isn't always linked to their age. It won't happen in the same way, or at the same time for everyone.*

# Dysgu, Cynnydd ac Asesu

# Learning, Progression and Assessment

**Bydd asesu yn rhan o ddysgu eich plentyn bob dydd.**
Bydd plant yn gweithio gyda'u hathrawon i ddeall pa mor dda maen nhw'n gwneud. Mae hyn yn bwysig i'w helpu i:

- weld ble maen nhw arni yn eu dysgu
- cynllunio eu camau dysgu nesaf
- sylwi ar unrhyw broblemau neu gymorth ychwanegol sydd ei angen ac i helpu'r athro i:
- ddod o hyd i ffyrdd i'w herio a
- gweld pa mor dda mae disgyblion yn gwneud.

*Bydd yr ysgol hefyd yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael yr help sydd ei angen i symud ymlaen.*

**Assessment will be part of your child's learning every day.**
They'll work with their teachers to understand how well they're doing. This is important to help them:

- see where they are in their learning
- plan their next learning steps
- spot any issues or extra support they need and to help their teacher:
- find ways to challenge them and
- see how well pupils are doing.

*The school will also work with you to make sure that your child has the help they need to move forward.*

# Sgiliau trawsgwriwlaidd a'r Gymraeg
# Cross curricular skills and Welsh

Mae'r plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg yn ein dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ac mae'r plant yn dod yn rhugl o oedran ifanc. Defnyddir Saesneg hefyd os nad yw'r plentyn yn deall.

The children are immersed in the Welsh language in our Nursery and Reception classes and children become fluent from a young age. English is also used if the child does not understand.

Bydd sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu datblygu a'u cymhwyso ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Bydd plant yn cael cyfleoedd i:

- Datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- Byddwch yn hyderus wrth ddefnyddio rhifau i ddatrys problemau,
- Defnyddio amrywiaeth o dechnolegau i'w helpu i weithredu, cyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.

The cross curricular skills of literacy, numeracy and digital competence will be developed and applied across all curriculum areas. Children will be given opportunities to:

- Develop listening, reading, speaking and writing skills
- Be confident when using numbers to solve problems
- Use a range technologies to help them function, communicate effectively and make sense of the world.

# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - ACRh
# Relationships and Sexuality Education - RSE

Mae ein cwricwlwm ysgol yn croesawu'r canllawiau yn y Côd ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a phwysig yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o strategaeth ysgol gyfan. Cefnogi dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch yw sylfaen ACRh. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.
Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, nid oes hawl i dynnu'n ôl o ACRh.

*Our school curriculum embraces the guidance in the RSE Code. Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a whole-school approach. Supporting learners to form and maintain a range of relationships, based on mutual trust and respect is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy.*
In accordance with Welsh Government legislation, there is no right to withdraw from RSE.

# Religion, Values and Ethics- RVE
# Crefydd,Gwerthoedd a Moeseg - CGM

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Mae CGM yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cwmpasu Astudiaethau Busnes, Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin yn ogystal a meddu ar wybodaeth a sgiliau ei hun.

Cyflwynir CGM yn unol â maes llafur cytûn lleol Abertawe ar gyfer CGM (2022). Cynllunnir ein cwricwlwm i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn CGM gwrthrychol a beirniadol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu llythrennedd crefyddol trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, nid oes hawl i dynnu'n ôl o CGM.

*Religion, Values and Ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. RVE forms part of the Humanities Area. The Area encompasses Business Studies, Geography, History, Religion, Values and Ethics and Social Studies. These disciplines share many common themes, concepts and transferable skills whilst having their own discrete body of knowledge and skills.*

*RVE is delivered in accordance with the Swansea locally agreed syllabus for RVE (2022). Our curriculum is planned to ensure that all pupils receive objective, critical and pluralistic RVE and are given opportunities to develop their religious literacy throughout their time in school.*

*In accordance with Welsh Government legislation, there is no right to withdraw from RVE.*

# Adolygu ac addasu
# Review and refinement

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i ganlyniadau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

*Our school curriculum will be kept under review in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be signed off by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes to the curriculum are made during the review process.*